



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At : Gynghorau Cymuned a Thref Cymru
Un Llais Cymru
Y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol

13 Rhagfyr 2021

Annwyl Gydweithiwr

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddais ymgynghoriad ar reoliadau drafft i'w gwneud o dan adran 30(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021'). Roedd y rheoliadau drafft yn pennu'r cymwysterau mae'n rhaid i glerc cyngor cymuned feddu arnynt er mwyn bodloni un amod o blith tri i gyngor newid i fod yn gyngor cymuned cymwys at ddibenion arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Rwy'n ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol. Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi ei gwblhau ac mae crynodeb wedi'i gyhoeddi ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yr ymgynghoriad yn cytuno y byddai'r cymwysterau a bennir yn y rheoliadau drafft yn sicrhau hyder bod y clerc yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth graidd i gefnogi cyngor cymuned i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Mae gan y prif gyrrff sy'n cynrychioli'r sector hyder amlwg bod y Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol yn darparu'r hyfforddiant ardystiedig sy'n benodol i'r sector ar gyfer clercod, gan sicrhau eu bod yn gallu cefnogi eu cyngor. Yn ogystal, mae'r cymwysterau eraill a bennir yn y rheoliadau drafft yn bodloni'r gofyniad hwnnw.

Er bod rhai ymatebwyr wedi awgrymu cymwysterau eraill y dylid eu hystyried i'w cynnwys, nid oedd cefnogaeth amlwg i gymwysterau addas eraill sy'n benodol i'r sector. Byddai'r graddau y byddai cynnwys y cymwysterau eraill hyn a gynigiwyd sy'n gymwys i'r sector yn amrywio. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y dylid ystyried profiad mewn rôl clerc. Er fy mod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r profiad hwn, nid wyf o'r farn y gellid ei fesur mewn modd gwrthrychol er mwyn sicrhau bod clercod yn gymwys i gefnogi cyngor i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol hwn, mae'n bleser gennyf gadarnhau fy mod wedi gosod y Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021 gerbron y Senedd, gyda dyddiad iddynt ddod i rym ar 5 Mai 2022.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'r rheoliadau wedi newid o'r drafft a gyhoeddwyd ar gyfer yr ymgynghoriad. Gellir eu gweld ar [wefan Senedd Cymru](#).

Ymddangosai fod rhai o ymatebwyr yr ymgynghoriad o'r farn y byddai'r cymwysterau yn ofynnol i **holl** glercod cynghorau cymuned. Mae'n bwysig pwysleisio **nad** oes rhaid i gyngor cymuned fodloni'r amodau ar gyfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol oni bai bod y cyngor dan sylw yn dymuno newid i fod yn gyngor cymuned cymwys. Dim ond ar gyfer y cynghorau hynny, ni waeth beth fo'u maint, sy'n dymuno newid i fod yn gyngor cymuned cymwys at ddibenion arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol y mae'r gofyniad ynglŷn â chymwysterau yn y rheoliadau drafft yn berthnasol.

Mae'r pŵer cyffredinol o dan Adran 137(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wedi cael ei gadw ar gyfer cynghorau cymuned nad ydynt yn dymuno newid i fod yn gyngorau cymuned cymwys, neu na allant fodloni'r amodau cymhwystra eto.

Cyfeiriodd rhai o ymatebion yr ymgynghoriad at bwysigrwydd bod clercod yn parhau i ddatblygu eu sgiliau. Mae hyn yn rhywbeth mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi, gyda [chyllid bwrsariaeth](#) yn cael ei gynig i alluogi clercod i gwblhau'r Dystysgrif lawn mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol, yn ogystal ag hyfforddiant ehangach megis Cyflwyniad i Weinyddiaeth Cynghorau Lleol. Gall clercod hefyd fynd ar gyrsiau hyfforddiant y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, i gynadleddau a manteisio ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r cyllid hwn yn cael ei adolygu yn flynyddol, ac rwy'n annog cynghorau a chlercod i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

Mae canllawiau statudol ar gyfer cynghorau cymuned a thref ynglŷn â'u holl bwerau a dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf 2021 yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd y canllawiau yn cynnwys adran ar arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, a chaiff cwestiynau a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn eu hadlewyrchu yn y canllawiau. Bydd ymgynghoriad ar y canllawiau yn cael ei gynnal yn nes ymlaen eleni, ac rwy'n edrych ymlaen at ystyried yr adborth a dderbynnir. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos â phartneriaid yn y sector wrth weithredu Ddeddf 2021, a sicrhau bod y canllawiau yn diwallu anghenion cynghorau cymuned a thref yng Nghymru.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government